Canllawiau ar Reolaeth, Adfer a Chreu

Coetir Derw Ucheldir

Bwriedir i'r ddalen arfer da hon fod yn arweiniad sylfaenol ar gyfer perchnogion tir a rheolwyr tir i gadw a hyrwyddo gwerth bioamrywiaeth Coetir Derw Ucheldir a helpu i sicrhau eu dyfodol. Dynodwyd Coetir Derw Ucheldir fel cynefin blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Gyfunol a hefyd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer Blaenau Gwent gan y bu gostyngiad difrifol yn ei niferoedd yn genedlaethol ac yn lleol.

Yn syml, mae **bioamrywiaeth** yn golygu 'popeth byw'. Mae'n cyfeirio at amrywiaeth cyfoethog y planhigion ac anifeiliaid gwyllt o'n gwmpas ynghyd â'r cynefinoedd sy'n eu cefnogi.

Mae Rhywogaethau Blaenoriaeth y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn gysylltiedig gyda'r Cynefin hwn yn cynnwys:

Mochyn daear	Brith perlog
Cadno	Brith perlog bach
Coch y berllan	Gwyfyn carped
Cnocell y coed	deu-sbot stribedog
Bronfraith y grug	Morgrugyn coed y de
Gwybedwr ysmotiog	Clychau'r Gog
Telor y coed	Clychlys ymlusgol
Brith brown	Cerddinen Seisnig

© Peter Wakely-EN

Clychau'r gog

Disgrifiad Cynefin

Mae Coetir Derw Ucheldir yn digwydd ar bridd gwael i asidig lle mae lefelau glaw uchel. Mae'r coetiroedd hyn ar dir uwch yng ngorllewin y Fwrdeisdref Sirol ac ar ochrau cwm. Y prif rywogaeth coed yw derw digoes, ond mae ffawydd hefyd yn gyffredin, ynghyd ag islawr o goed bach a pherthi cyll, cerddinen a chelyn. Mae'r rhan fwyaf o'r Coetir Derw Ucheldir ym Mlaenau Gwent yn goetir hynafol lled-naturiol, na fedrid ei adfer gan ei fod wedi cymryd canrifoedd lawer i esblygu ac o werth bioamrywiaeth uchel.

Ffactorau yn Effeithio ar Gynefin

- Colli a darnio cynefin
- Diffyg rheolaeth briodol – gorbori, yn bennaf gan ddefaid, ac i reddau liai gan wningod, gan arwain at golli fflurdyfiant ac adfywio naturiol ac i raddau llai gan wningod.
- Colli arferion rheolaeth traddodiadol megis coedlannu, gan arwain at esgeulustod.
- Ymlediad rhedyn sy'n atal adfywio naturiol a masarn sy'n newid cyfansoddiad coetiroedd.
- Dodi conwydd mewn coetiroedd ar ôl cwympo coed.

© Peter Wakely-EN

Coedlan dderw gyda briallu



Arfer da

Diogelu, cynnal a hyrwyddo unrhyw ardaloedd o Goetir Derw Cymysg Ucheldir ar eich tir drwy:

- Defnyddio dulliau dim-ymyrriad mewn ardaloedd anghysbell neu anhygyrch heb fawr o ymyriad dynol. Dyma lle caiff datblygiad y coed ei adael yn llwyr iddo'i hun, heblaw am ddileu rhywogaethau egsotig sy'n ymledu megis conifferau (sbriwsen Sitka, cegid y Gorllewin), canclwm Japan, a rhododendron.
- Annog adfywiad naturiol coed a pherthi drwy ffensio ardaloedd o goetir i atal gorbori a chaniatáu tyfiant daear i ailsefydlu. Mae gardiau a chysgodfannau coed fel arfer yn rhatach na ffensio ar gyfer ardaloedd gwasgaredig a grwpiau bach.
- Cynnal, a lle'n briodol, gynyddu cyfansoddiad coed deilen-lydan brodorol yn y coetir. Fel canllaw bras, rhaid iddynt ffurfio o leiaf 50% o'r coetir. Fodd bynnag, 100% yw'r delfrydol.
- Edrych ar ôl adar gwyllt drwy osgoi gwneud unrhyw waith coed yn ystod y tymor nythu adar rhwng Mawrth-Gorffennaf. Yr amser gorau i wneud y gwaith yw rhwng Hydref a Mawrth.
- Teneuo coed neu gwympo yn ddethol i arallgyfeirio cynefin y coetir a chadw golwg ar wasgariad rhywogaethau diangen megis masarn. Medrir defnyddio teneuo neu gwympo gofalus ar goed i drin lefelau ysgafn gyda'r nod o gynyddu adfywiad coed a defnyddio'r canopi coed a pherthi sydd ar ôl i reoli tyfiant tir ymledol h.y. rhedyn a mieri.
- Cadw unrhyw goed hen neu aeddfed gyda chraciau, holltau a thyllau gan y medrir eu defnyddio fel safleoedd nythu i ystlumod. Os oes angen symud coed o'r fath, gofynnwch am gyngor gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Dylid hefyd gael cyngor arbennig gan Gyngor Bwrdeistref Lleol Blaenau Gwent os yw coed yn agos at lwybrau troed, priffyrdd neu ardaloedd hygyrch i'r cyhoedd ac y medrant fod yn berygl.

© Peter Wakely-EN

Derwen hynafol

- Hyrwyddo dulliau traddodiadol o reolaeth coetiroedd megis coedlannu a thocio i greu mosaig cyfoethog o gynefinau a rhoi mwy o olau i'r goedwig i hybu tyfiant daear megis clychau'r gog. Mae tocio yn wahanol i goedlannu gan ei fod yn golygu torri'n ôl brif fonyn y goeden i uchder o tua 2m yn hytrach na'n agos at lefel y ddaear ac fe'i defnyddir mewn hen goetir pori lle mae stoc yn pori. Mae coedlannu yn well mewn coedwigoedd sy'n dal i gael eu coedlannu neu a gafodd eu coedlannu yn y 40-50 mlynedd diwethaf.
- Cadw bonion mawr gan fod y rhain yn ffurfio cynefinoedd cyfoethog ar gyfer mwsogl a llysiau'r afu.
- Creu llennyrch a llwybrau er budd pili pala ac adar. Dylai llennyrch amrywio rhwng 0-5-2ha mewn maint i annog amrywiaeth mor eang o fywyd gwyllt ag sydd modd. Mae llwybrau yn werthfawr os ydynt yn llydan a heulog (e.e. o leiaf 5m o led yn dibynnu ar uchder y coetir, a llai na 20% o gysgod), ac yn crymu a newid cyfeiriad yn hytrach na bod mewn llinell syth. Pan yn rheoli llwybrau, torrwch y rhan canolog yn unig gan adael ymyl o wair a blodau uchel ar hyd yr ymylon.



© Peter Wakely-EN

Llannerch wedi ei reoli'n dda gyda gwair tai a blodau gwalit

- Cynnal cynefin aeddfed drwy adael pren marw yn sefyll a choed wedi cwympo lle bynnag y bo'n bosibl, cyn belled nad yw hyn yn gwrthdaro gyda materion diogelwch cyhoeddus. Crëwch domenni cynefin gyda changhennau wedi cwympo a darnau oced a fydd o fudd i interfeterbratau a ffwngi.
- Anogwch adar ac ystlumod drwy godi nythod artiffisial a blychau ystlum ar goed aeddfed.
- Cadw dringwyr megis eiddew a gwyddfid. Nid yw'r planhigion hyn yn achosi difrod i goed ond yn creu safleoedd nythu gwerthfawr i adar a chynefinoedd i bryfed.

Ymestyn ardaloedd o Goedlannau Derw Ucheldir drwy:

Adfywio naturiol

Dyma'r opsiwn gorau gan fod hyn yn cadw dosbarthiad naturiol rhywogaethau coed yng nghyswllt amodau'r safle. Medrir hybu adfywio naturiol drwy gwympo grŵp, creu bylchau o hyd at 0.5a mewn maint, a drwy ffensio ardaloedd i osgoi gorbori, a chaniatáu coed a pherthi i wasgaru o'r coetir presennol a choloneiddio ardaloedd newydd ger y coeti a gorchuddio ardaloedd o dir gwag cyfagos a lleoedd mae coed conwydd wedi eu cwympo.

Plannu

- Dim ond lle nad yw adfywiad naturiol yn bosibl y dylid defnyddio plannu, er enghraifft lle mae mat trwchus o weiriach yn dominyddu'r gorchudd tir gan osgoi eginiad.
- Yn ddelfrydol, dylai planhigion gael eu gosod mewn bylchau canopi ac ardaloedd a gafodd eu cwympo.
- Dylid gwneud unrhyw blannu yn ystod misoedd y gaeaf rhwng Hydref a Mawrth. Dylid osgoi cyfnodau barugog neu wlyb iawn.
- Gall fod angen gardiau coed neu ffensio lle mae pori gan gwningod, ysgyfarnogod, ceirw neu dda byw yn broblem.
- Dylai coed a pherthi gael eu cyrchu'n lleol lle bynnag y bo modd o goetiroedd tebyg neu brynu rhywogaethau brodorol gan gyflenwyr gydag enw da. Mae rhywogaethau addas yn cynnwys ffawydd, yw, ynn, derw digoes, derw coesog, bedwen gyffredin, bedwen arian, a cherddinod gydag ishaen o gelyn, cyll ac afalau surion.
- Bydd unrhyw blannu newydd angen chwynnu gofalus am 3-5 mlynedd i annog sefydlu iach. Mae chwynnu â llaw yn well na chwistrellu.
- Dylid ceisio cyngor pellach ar fathau o rywogaethau i'w defnyddio, technegau plannu, ac ôl-ofal a rheolaeth.

Peidiwch gwneud unrhyw un o'r gweithgareddau dilynol heb ofyn am gyngor pellach yn gyntaf:

- Llosgi unrhyw dyfiant.
- Aredig, meithrin neu ail-hadu gyda chymysgedd had amhriodol, rolio neu lyfnu gyda chadwyn.
- Gosod unrhyw systemau draenio newydd, clirio unrhyw ffosydd, gostwng unrhyw lefelau dŵr presennol, neu weithredu draeniad naturiol a nodweddion gwlypdir megis pyllau a chwympau dŵr.
- Gosod unrhyw chwynladdwyr neu blaladdwyr o fewn 10m o Goetir Derw Ucheldir os nad yn trin chwyn hysbysadwy megis dail tafol, esgyll ac ati, neu rywogaethau ymledol megis canclwm Japan, rhedyn a mieri. Bydd angen cymeradwyaeth Asiantaeth yr Amgylchedd ar ddefnyddio plaladdwyr ar neu'n agos at ddŵr.
- Dodi unrhyw wrtaith anorganig neu organig megis dom fferm, biswail, llaid carthion, dom ieir neu bysg mâl o fewn 10km o Goetir Derw Ucheldir.
- Gosod unrhyw galch, basig slag, gwymon calchedig neu unrhyw ddefnyddiau eraill i newid asidrwydd y pridd.
- Storio unrhyw wrtaith, gwastraff fferm neu unrhyw wastraff arall ar unrhyw ardal o Goetir Derw Ucheldir.
- Cyflwyno gêm neu arferion dwys eraill megis pori.
- Cynnal unrhyw fwydo ychwanegol neu osod unrhyw gafnau dyfrio.
- Teneuo neu gwympo coed heb asesu gofynion trwydded cwympo coed a/neu ddiogeliad statudol megis Gorchymyn Cadw Coed.

Coed a'r Gyfraith

Gorchmynion Cadw Coed (TPO)

Gall Gorchmynion Cadw Coed fod yn weithredol ar gyfer rhai coed. Cyn gwneud unrhyw waith i'r coed hyn, bydd angen i chi gysylltu â'r Cyngor i gael y caniatad angenrheidiol.

Trwyddedau Cwympo

Gall fod angen trwydded cwympo i gwympo gwrych. Cyhoeddir y rhain gan y Comisiwn Coedwigaeth. Medrir eich erlyn os ydych yn cwympo coed heb drwydded.

Cyngor Pellach

Partneriaeth Bioamrywiaeth Blaenau Gwent
Rhoi cyngor ar adfer cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth o fewn y Fwrdeisdref Sirol.
Ffôn: 01495 355702

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent
Gweinyddu'r Cynllun Grant Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n cynnig grantiau bychan hyd at £2,000 i berchnogion tir a grwpiau cymunedol ar gyfer prosiectau bioamrywiaeth.
Ffôn: 01495 356070
Gweinyddu Gorchmynion Cadw Coed
Ffôn: 01495 355546

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW)
Gweinyddu Cynllun Amaeth-Amgylchedd Tir Gofal lle mae grantiau ar gael ar gyfer amrediad eang o waith rheolaeth cynefin ar ffermydd.
Ffôn: 02920 772400

Coed Cymru
Rhoi help a chyngor di-dâl ar: reolaeth coetir, cynaeafu coed, prosesu, datblygu cynnyrch a marchnata.
Ffôn: 01495 235354.

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Gweinyddu caniatâd chwynladdwyr ger llwybrau dŵr **Ffôn: 08708 506506** ac yn rhedeg y Llinell Arbennig Llygredd **Ffôn: 0800 807060**

Comisiwn Coedwigaeth
Gweinyddu trwyddedau cwympo coed
Ffôn: 01873 850060.

Dalier sylw: mae'r argymhellion o fewn y ddalen hon ar gyfer arweiniad yn unig. Oherwydd cymhlethdod coetiroedd unigol a'r rhyngweithiau o'u mewn, fe'ch cynghorir i geisio cyngor arbenigol gan sefydliadau perthnasol o'r camau cynnar. Medrir hefyd lawrlwytho'r ddalen hon o wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Blaenau Gwent 'Gwe Bywyd'. Medrir cyrchu hyn drwy www.blaenau-gwent.gov.uk